

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Cymunedau

Dyddiad: Dydd Gwener, 9 Mehefin
2017

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2017** am **11.15 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Atgoffir aelodau y cynhelir y sesiwn hyfforddiant 'Cyflwyniad i Graffu' am 9.30am, yn union o flaen cyfarfod y Pwyllgor. Mae croeso i bob cynghorydd ac aelod cyfetholedig fynychu'r sesiwn hyfforddiant hon.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 3 - 4)

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18 (gweler ynghlwm gopi o ddisgrifiad swydd ar gyfer Aelod Archwilio a Chadeirydd / Is-Gadeirydd)

11.15am – 11.20am

4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2017 (copi ynghlwm).

11.20am – 11.25am

6 POLISI CLUDIANT I DDYSGWYR SIR DDINBYCH (Tudalennau 13 - 58)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar ddrafft y Polisi Cludiant i Ddysgwyr, ac argymhell bod y Cabinet yn mabwysiadu'r polisi.

11.25am – 12pm

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 59 - 80)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

12pm - 12.30pm

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Brian Blakeley
Rachel Flynn
Tina Jones
Arwel Roberts
Anton Sampson
Glenn Swingler

Andrew Thomas
Graham Timms
Cheryl Williams
David Williams
Mark Young

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 6 yn unig)

Kathleen Jones

Gareth Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

(vi) Rôl: **Aelod Pwyllgor Archwilio/Cadeirydd**
Cyflog: **Band 3 (Cadeirydd yn unig)**

Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i rôl y Cadeirydd

1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Balchder
 - Hygrededd
 - Parch
 - Undod
 - Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
 - Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
 - Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.

- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ddydd Iau, 23 Mawrth 2017 am 9.30am yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Bob Murray, Anton Sampson, David Simmons, Cefyn Williams a Cheryl Williams.

Y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, ar gyfer eitemau 5 a 6.

Hefyd yn bresennol: Y Prif Weithredwr (MM), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd (GW), Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Rheolwr Gwasanaethau Ardaloedd y Gogledd (JM), y Cydlynnydd Archwilio (RE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KAE).

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Meirick Lloyd-Davies ac Arwel Roberts.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bill Cowie, Peter Evans a Rhys Hughes.

Yr Aelod Cabinet Bobby Feeley ar gyfer eitem 7 hefyd, fel Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd David Simmons gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen – rheoleiddio dyfeisiau hedfan di-yrwr. Mae'r Cynghorydd Simmons yn Gadeirydd mewn sefydliad sy'n defnyddio dronau ar gyfer gweithgarwch chwilio ac achub.

3 MATERION BRYG FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryg.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor â theuluoedd y dioddefwyr yn yr ymosodiad terfysgol yn San Steffan y diwrnod cynt gan ddymuno'r gorau i'r rhai a anafwyd yn yr ymosodiad.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2017. Nid oedd unrhyw fater yn codi ohonynt.

Penderfynwyd: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2017 fel cofnod cywir.

5 RHEOLEIDDIO DYFEISIAU HEDFAN DI-YRRWR

Bu i'r Cadeirydd gyflwyno Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus gan ddiolch iddo am y gwaith roedd wedi'i wneud o fewn ei bortffolio dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Ategwyd hyn gan aelodau'r Pwyllgor.

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) gan ddweud wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno iddynt er mwyn ymateb i gais y Cyngor Sir, yn dilyn ei drafodaeth ym mis Rhagfyr 2016 ar Rybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, a oedd yn gofyn am wahardd 'dronau' rhag hedfan dros bob man cyhoeddus yn Sir Ddinbych.

Roedd y Cyngor Sir wedi penderfynu y dylai'r Pwyllgor Archwilio ystyried a ddylai'r Cyngor gyflwyno cyfyngiadau yn ychwanegol at y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y gyfraith, mewn perthynas â hedfan dyfeisiau di-yrwr.

Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a'r Gwasanaethau Democraataidd (GCADaGD) wedi darparu adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn manylu ar y fframwaith rheoleiddio mewn perthynas â defnyddio dyfeisiau hedfan di-yrwr, gan restru'r deddfau a'r rheoliadau a oedd yn rheoli eu defnydd ar hyn o bryd. Roedd Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol lunio is-ddeddfau i atal neu gael gwared â niwsans yn eu hardal. Er hynny, gallai gorfodi is-ddeddfau lleol mewn perthynas â hedfan dyfeisiau di-yrwr fod yn anodd iawn, oherwydd natur y broblem.

Dywedodd Pennaeth y GCADaGD bod y ddeddfwriaeth gyfredol, a oedd wedi'i chynnwys yn Neddf Hedfan Sifil 1982 ac, yn ddiweddarach, yng Ngorchymyn Llywio yn yr Awyr 2016, yn gynhwysfawr iawn a'i bod yn trafod holl agweddau hedfan peiriannau a dyfeisiau, gyda gyrwyr a hebddynt, gan gynnwys dronau. Dywedodd na allai'r Cyngor wneud unrhyw beth i reoli dronau sy'n hedfan. Yr unig bwerau a oedd ar gael iddynt oedd rhai i gyflwyno is-ddeddfau a oedd yn gwahardd pobl rhag eu hedfan o dir sy'n eiddo i'r Cyngor.

Tynnodd Pennaeth y GCADaGD sylw'r Aelodau at ymgynghoriad diweddar gan Adran Drafnidiaeth y DU – 'Datgloi Economi Technoleg Uwch y DU: Ymgynghoriad ar ddefnyddio Dronau yn ddiogel yn y DU' a ddaeth i ben yn ddiweddar. Eglurodd bod yr ymgynghoriad eang (roedd copi ohono wedi'i atodi i'r adroddiad) yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ynglŷn â ffyrdd o ddefnyddio dronau yn

ddiogel at ddibenion masnachol a hamdden, heb rwystro mentergarwch ac arloesedd. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd fod y Cyngor ei hun wedi defnyddio dronau i fesur adeiladau a thiroedd.

Dywedodd y Cynghorydd David Simmons ei fod yn gwybod bod Sefydliad Cenedlaethol y Badau Achub yn treialu dronau datblygedig iawn ar hyn o bryd, gyda'r dechnoleg ddiweddaraf a fyddai'n cynorthwyo gwaith achub yr elusen. Roedd System Leoli Fyd-Eang (GPS) ar rai o'r dronau roedd Sefydliad y Badau Achub yn eu defnyddio ar hyn o bryd, a oedd yn gallu mesur pellter gwrthrych oddi wrth reolwr y drôn.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd Pennaeth y GCADaGD:

- Nad oedd gan awdurdodau lleol unrhyw reolaeth dros yr awyr mewn perthynas â hedfan – yr Awdurdod Hedfan Sifil a oedd yn rheoli hynny;
- Roedd Deddf Hedfan Sifil 1982 a Gorchymyn Llywio yn yr Awyr 2016 yn cyfeirio at faterion fel prysurdeb yn yr awyr a lefelau sŵn dyfeisiau a pheiriannau hedfan.
- Roedd cyfreithiau preifatrwydd, niwed personol a diogelu data yn amddiffyn hawliau unigolion i breifatrwydd a hawliau rhag ymyrraeth wedi'i achosi gan ddronau a pheiriannau hedfan di-yrwr.
- Roedd hedfan drôn mewn ardaloedd adeiledig neu, os oedd camera arno, o fewn 50m i adeilad, yn anghyfreithlon heb drwydded; ac
- Roedd yn debygol y byddai canllawiau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth unwaith y byddai'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hystyried, cyn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts wrth y Pwyllgor ei fod, ar ôl cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig, wedi derbyn e-bost gan gwmni diogelwch byd-eang o Lundain mewn perthynas â phroblemau a oedd yn ymwneud â dronau, gan gynnwys sŵn. Roedd y cwmni'n cynnig helpu unigolion neu gwmnïau a oedd yn cael eu poeni gan ddronau.

Gwahoddwyd aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i annerch y Pwyllgor. Eglurodd ei fod yn weithredwr dronau trwyddedig a'i fod yn hyddysg yn y cyfreithiau cyfredol a oedd yn eu rheoli, a oedd yn gynhwysfawr, yn ei farn o. Dywedodd wrth yr aelodau bod y cyfrifoldeb mewn perthynas â riportio cwynion am ddronau wedi'i drosglwyddo oddi wrth yr Awdurdod Hedfan Sifil i'r Heddlu yn ddiweddar, felly os oedd gan aelod o'r cyhoedd gwyn a oedd yn ymwneud â dyfeisiau hedfan di-yrwr, dylent gysylltu â'r Heddlu, yn gyntaf. Roedd gwefan ar gael hefyd, a oedd yn cynnwys manylion cod er mwyn defnyddio dronau yn ddiogel. Cynigiodd ei wasanaethau i'r aelodau am faterion a gwybodaeth yn ymwneud â dronau/dyfeisiau a pheiriannau hedfan di-yrwr.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Cynghorydd Arwel Roberts am dynnu sylw'r Cyngor tuag at ddefnyddio dronau ac i Bennaeth y GCADaGD a'r aelod o'r cyhoedd a ddaeth i'r cyfarfod am egluro'r ddeddfwriaeth gyfredol a oedd yn rheoli dyfeisiau a pheiriannau hedfan di-yrwr i'r aelodau. Roeddent o'r farn bod y drafodaeth a'r wybodaeth a rannwyd wedi bod yn hynod ddefnyddiol ac addysgiadol. Roedd yr aelodau'n credu'n gryf na fyddai cyflwyno unrhyw is-ddeddfau mewn perthynas â dyfeisiau a pheiriannau hedfan di-yrwr yn effeithiol ar hyn o bryd, gan yr

ydddengys fod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol yn rheoli eu defnydd yn effeithiol. Er hynny, bu iddynt ymrwmo i fonitro canlyniad yr ymgynghoriad diweddar ac ystyried y mater eto yn y dyfodol pe bai canlyniad yr ymgynghoriad yn gofyn am ystyriaeth o'r fath. Felly:

Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod, nad oedd unrhyw gamau gweithredu pellach wedi'u hargymell ar hyn o bryd mewn perthynas â rheoleiddio dronau yn Sir Ddinbych, gan fod deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol yn rheoli eu defnydd yn ddigonol. Fodd bynnag, pe bai canfyddiadau ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddefnyddio dronau yn ddiogel, 'Datgloi Economi Technoleg Uwch y DU', yn gofyn am ystyried y mater eto, dylid cyflwyno adroddiad ynglŷn â rheoliadau lleol posibl i'r Pwyllgor Archwilio.

6 YMAGWEDD GORFFORAETHOL TUAG AT REOLI 'GWYLANOD' AR DRAWS Y SIR

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus yr adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) gan roi gwybod i'r Pwyllgor bod gwylanod, fel adar eraill, ynghyd â'u nythod a'u hwyau, wedi'u gwarchod gan y gyfraith dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, er bod nifer yn eu hystyried yn bla. Rhoddwyd gwarchodaeth ychwanegol i nifer o 'wylanod' hefyd, gan fod niferoedd y rhai gwyllt yn gostwng. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn cydnabod bod ymddygiad gwylanod mewn blynyddoedd diweddar wedi dod yn broblem gynyddol i'r Awdurdod, i drigolion, i ymwelwyr ac i fusnesau lleol ac felly roedd angen gweithredu er mwyn lleihau'r effaith niweidiol ar y Sir.

Tynnodd yr Aelod Arweiniol sylw'r aelodau at Atodiad 2 i'r adroddiad, a oedd yn cynnwys cynllun gweithredu drafft i fynd i'r afael â'r problemau a achosid gan wylanod. Dywedodd fod Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor wedi ystyried y cynllun gweithredu hwn eisoes ac roedd swyddogion bellach yn ceisio casglu barn yr aelodau ar y camau arfaethedig, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu eraill roedd aelodau'r Pwyllgor yn dymuno eu cynnig. Roedd nifer o atodiadau'r adroddiad yn pwysleisio'r cymhlethdodau a oedd ynghlwm ag ymdrin â phroblemau a oedd yn ymwneud â gwylanod, a'r amryw atebion a dreialwyd mewn ardaloedd eraill yn y DU i fynd i'r afael â phroblemau a achosid ganddynt.

Pwysleisiodd aelodau'r Pwyllgor y problemau roedd gwylanod yn eu hachosi yn eu cymunedau hwythau a'r modd roedd rhai o'r problemau hyn yn cael eu gwaethygu gan bobl ac arferion gwael e.e. bwydo'r adar, rhoi bagiau sbwriel y tu allan y noson cyn iddynt gael eu casglu, arferion gwastraff bwyd bwytai a bwytai bwyd brys, ac ati. Bu iddynt hefyd restru nifer o gynlluniau y gwyddent fod awdurdodau lleol eraill wedi'u treialu er mwyn ceisio lleihau niwsans gwylanod a rheoli eu niferoedd h.y. gosod baneri/balwnau, rhwydi/pigau ar doeau, tyllu wyau mewn nythod, dulliau atal cenhedlu, ac ati.

Amlygwyd graddau'r niwsans a pha mor gyffredin oedd gwylanod yn y Sir gan aelodau drwy gyfeirio at uned fanwerthu yn y Rhyl, lle daethpwyd o hyd i 71 o

nythod gwylanod ar y to wrth ei archwilio. Cyfeiriodd aelod arall at ysgol yn y Sir a oedd wedi gwario arian o'i chyllideb i ariannu gwaith i ddiogelu'r adeilad a'r disgyblion rhag gwylanod.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r Aelod Arweiniol a Phennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd:

- gytuno gyda'r aelodau bod cymaint o fai ar bobl am y problemau a achosid gan wylanod â'r gwylanod eu hunain. Yn sicr, roedd angen addysgu pobl mewn perthynas â bwydo gwylanod a sut i wella eu dulliau o gael gwared â gwastraff cartref;
- cadarnhau, yn yr un modd, bod angen addysgu bwytai a lleoedd bwyta am ffyrdd o gael gwared â'u gwastraff, ac ati;
- dweud bod problemau mewn perthynas â gwylanod yn dod mor gyffredin yng nghefn gwlad ag yr oeddent ar hyd yr arfordir; a
- chadarnhau bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth o'r farn bod angen ymagwedd amlochrog tuag at reoli gwylanod ac, er bod ganddynt rai pryderon ynglŷn â pha mor ymarferol oedd gorfodi unrhyw is-ddeddfau posib' ynglŷn â bwydo'r gwylanod, efallai y byddai cymeradwyo is-ddeddf yn fanteisiol o safbwynt datgan yn glir wrth drigolion ac ymwelwyr nad oedd croeso i arferion o'r fath ac na fyddent yn cael eu goddef.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r holl gamau gweithredu a gynigiwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ar ben hynny, awgrymodd yr aelodau y dylid cymryd y camau canlynol mewn perthynas â rheoli gwylanod ledled y Sir:

- gan ei bod yn hysbys y gallai gwylanod hedfan hyd at 60 milltir yn ystod y nos a chan nad oeddent yn poeni am ffiniau sirol, roedd yn hanfodol bod y Cyngor yn dod a'i gamau gweithredu arfaethedig i'w rheoli at sylw awdurdodau lleol eraill, gan ofyn am eu cefnogaeth a'u cymorth i fabwysiadu dulliau tebyg;
- dylai holl safleoedd y Cyngor Sir fod â mesurau atal gwylanod wedi'u gosod;
- os oedd problem hysbys o ran pobl yn bwydo gwylanod, dylid gofyn i Dîm Gorfodi Diogelwch Cymunedol y Cyngor gyflwyno rhybuddion i unigolion a oedd yn bwydo'r adar ac os nad oedd ceisio perswadio yn ddigon, yna dylid cyflwyno rhybuddion cosb benodedig;
- ystyried cyflwyno is-ddeddf neu Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus i atal pobl rhag bwydo'r gwylanod, er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y broblem o fwydo gwylanod;
- Lansio ymgyrch i geisio addysgu preswylwyr ac ymwelwyr i beidio â bwydo'r gwylanod, gan dynnu eu sylw tuag at beryglon yr arfer hon i bobl ac i'r gwylanod eu hunain (yn debyg i'r dulliau y mae sŵau'n eu defnyddio);
- Lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth wrth ddsbarthu calendrau sbwriel am yr angen am osod y sbwriel allan ar y diwrnod casglu ei hun, er mwyn sicrhau nad yw gwylanod, plâu eraill nac anifeiliaid yn gallu cael gafael arno h.y. 'amod' ar gyfer casglu sbwriel;
- Cyflwyno 'Siarter Wylanod' ar gyfer busnesau masnachol i sicrhau bod eu gwastraff bwyd yn ddiogel ac nad yw ar gael yn hawdd i adar nac anifeiliaid pan oedd yn cael ei adael y tu allan;

- ystyried ymgymryd â gweithgarwch gorfodi y 'tu allan i oriau' pe bai'n dod yn amlwg bod gwastraff bwyd yn cael ei adael allan mewn modd anniogel yn rheolaidd; ac
- ystyried effeithiolrwydd a'r gost arfaethedig o ddefnyddio dulliau atal cenhedlu i reoli niferoedd y gwyfanod.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

Penderfynwyd: - bod yr aelodau

- (i) wedi ddarllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) yn rhan o'i ystyriaethau; ac**
- (ii) yn amodol ar gynnwys y camau gweithredu a argymhellwyd uchod, yn cefnogi'r camau gweithredu corfforaethol y cytunwyd arnynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, fel ag y maent yn Atodiad 2 i'r adroddiad.**

7 RHEOLI GWASANAETH BYW'N ANNIBYNNOL Â CHYMORTH, AILALLUOGI A GWEITHWYR CEFNOGI IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y Rheolwr Gwasanaeth: Ardaloedd ar gyfer y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Pwyllgor.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran uno swyddogaeth reoli'r gwasanaethau ar ôl i'r cyfnod ymgynghori gyda'r holl staff a oedd yng nghwmpas y gwasanaeth newydd ddod i ben. Roedd hefyd yn cynnwys manylion y dangosyddion arfaethedig a fyddai'n cael eu defnyddio i fesur effeithiolrwydd y Gwasanaeth wrth ddarparu canlyniadau, unwaith y byddai'r strwythur rheoli newydd wedi'i roi ar waith ar 1 Ebrill 2017.

Er y byddai'r Gwasanaeth yn gwneud arbedion ariannol drwy uno'r strwythur rheoli, nid oedd unrhyw aelod o staff wedi'i ddiswyddo, ac roedd un aelod o staff wedi'i adleoli. Byddai cynllun busnes newydd yn cael ei lunio unwaith y byddai'r Gwasanaeth newydd yn weithredol ym mis Ebrill. Byddai'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddarparu llawer o wasanaethau o fath sy'n ailalluogi, yn hytrach na gwasanaethau a oedd yn creu dibyniaeth ar ofal cymdeithasol, gan yr ystyrid bod y dull hwn yn gwella bywydau defnyddwyr y gwasanaethau yn y tymor hir.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth:

- mai'r sail resymegol ar gyfer uno'r tri gwasanaeth hwn mewn un strwythur rheoli oedd sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, gan ategu ac ychwanegu at sgiliau arbenigol ei gilydd;
- mewn perthynas â rheoli rhyddhau pobl o Ysbyty Glan Clwyd, bod hyn yn cael ei wneud drwy 'glwstwr camu i lawr', 1 o 5 yn y Sir – 3 yng ngogledd y Sir (gan gynnwys y 'clwstwr camu i lawr') a 2 yn y de;
- na fu unrhyw achos o oedi wrth drosglwyddo gofal ym mis Ionawr na mis Chwefror 2017 oherwydd unrhyw fethiant gan Adran y Gwasanaethau

Cymdeithasol. Achos yr oedi oedd problemau roedd darparwyr gofal yn eu cael wrth geisio recriwtio staff, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig;

- roedd gwaith ar fynd ar hyn o bryd gyda'r Bwrdd Iechyd i ystyried a ellid defnyddio gwelyau gofal preswyl 'gwag' yn y Sir ar gyfer y cyfnodau cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty, tra roedd pecynnau gofal unigol yn cael eu trefnu ar gyfer y cleifion. Roedd hwn yn faes cymhleth a oedd yn gofyn bod darparwyr gofal annibynnol yn cydweithio. Fodd bynnag, roedd potensial yma i allu defnyddio gwelyau'r ysbyty at ddibenion meddygol;
- Roedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) ar hyn o bryd yn ystyried yr hyn y gellid ei wneud o fewn y sector gofal nyrsio er mwyn lleihau'r pwysau ar welyau mewn ysbytai, gan gynnwys a ellid llacio'r angen am sicrhau bod gofal nyrsio ar gael ar y safle bob awr o'r dydd pe bai trefniadau digonol ar waith i alw am ofal nyrsio, pe bai ei angen; ac
- O fis Ebrill 2018 ymlaen, dan ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, byddai angen i'r Gwasanaeth Iechyd ac i awdurdodau lleol sefydlu cyllidebau cyfun i wario ar gartrefi gofal, gan geisio gwella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth a gwella eu lles yn gyffredinol. Roedd gwaith ar fynd ar hyn o bryd mewn perthynas â datblygu'r cyllidebau cyfun ac roedd disgwyl i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 6 Ebrill 2017 ar y cynnydd hyd yma yn Sir Ddinbych mewn perthynas â chyllidebau cyfun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Wrth ddod â'r drafodaeth i ben, bu i'r Pwyllgor annog y swyddogion i barhau i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y trigolion, gan sicrhau eu bod yn gallu bod yn annibynnol eto a pharhau i fod yn annibynnol am fwy o amser ac, o ganlyniad, yn llai dibynnol ar wasanaethau gofal cymdeithasol. Felly:

Penderfynwyd:

- i) derbyn yr adroddiad a chefnogi'r dull a fabwysiadwyd i ddarparu Gwasanaeth Byw'n Annibynnol â Chymorth, Ailalluogi a Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, yn amodol ar yr uchod; a***
- ii) chyflwyno'r pecyn cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol cyfun, unwaith y bydd ar ei ffurf derfynol, i Bwyllgor Archwilio er mwyn ei archwilio'n fanwl.***

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor gan roi diweddariad ar faterion perthnasol.

Cyfeiriodd y Cydlynnydd Archwilio at adran 5 yn yr adroddiad a'r eitemau diwygiedig a gynhwysid yn rhaglen y Pwyllgor Archwilio Cymunedau gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio. Roeddent yn cynnwys:

- amnewid adroddiad Adolygu Darpariaeth Ysgolion Cynradd yn Ardal Rhuthun – gohiriwyd hyd nes y byddai'r adolygiad wedi dod i ben ac ymateb Gweinidogol ar Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd wedi'i dderbyn – am adroddiad Rheoleiddio Dyfeisiau a Pheiriannau Hedfan Di-yrwr;
- cyfeirio rheoli dŵr yn Nglasdir at Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun fel mater lleol;
- gwneud cais i'r Pwyllgor ystyried adroddiad gan yr Adran Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar y cynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir ar 31 Ionawr 2017 ynglŷn â pharcio ceir am ddim i ddeiliaid bathodyn anabledd;
- trefnu bod eitemau'r Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor yn yr hydref;
- gwahodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i Sesiwn Frifio'r Cyngor ar ôl etholiadau lleol mis Mai.

Penderfynwyd: yn amodol ar yr uchod, gymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel ag y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Nid oedd adborth i'w dderbyn.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniad dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Talodd deyrnged i'r Cynghorydd Cefyn Williams, a oedd wedi penderfynu peidio â sefyll yn yr etholiad y tro hwn, am ei gefnogaeth, ei bresenoldeb ac am rannu ei brofiad i gynorthwyo wrth lywio'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cynghorydd Martyn Holland i'r Cadeirydd am reoli'r cyfarfodydd yn dda.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:23am.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	15 Mehefin 2017
Swyddog Arweiniol:	Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant
Awdur yr Adroddiad:	Pennaeth Addysg
Teitl:	Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Darparu adborth yn dilyn ymgynghoriad ar Bolisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Bod yr Aelodau'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cadarnhau a ellir symud ymlaen i'r cam nesaf o fabwysiadu'r polisi.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

- 3.1 cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5) fel rhan o'u hystyriaethau; ac
- 3.2 - Ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ynddynt.
- Trafod yr ymatebion penodol a gafwyd i'r ymgynghoriad; ac
- Argymhell i'r Cabinet bod y polisi'n cael ei gymeradwyo.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cefndir

4.1.1 Cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Archwilio Cymunedau ar 2 Chwefror 2017 i ddarparu manylion y polisi newydd. Yn y cyfarfod hwn, cefnogodd yr Aelodau'r ymagwedd a amlinellwyd ac awdurdodwyd Cymorth Addysg i ymgymryd â'r cam ymgynghori; gydag Asesiad o Effaith ar Les yn cael ei gynnal cyn hynny. Gofynnwyd hefyd bod canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i bwyllgor archwilio yn y dyfodol, a dyma yw'r adroddiad hwn.

4.1.2 Mae'r polisi drafft a'r cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad a ddatblygwyd gan Gymorth Addysg wedi'u nodi yn Atodiad 1 a 2 yn y drefn honno. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori o 13 Mawrth tan 30 Ebrill 2017.

4.1.3 Anfonwyd ceisiadau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ynghyd â'r dogfennau perthnasol, at:

- Holl rieni disgyblion ysgolion Sir Ddinbych; dros 13,000 o lythyrau wedi'u hanfon
- Holl benaethiaid a Chyrff Llywodraethu Sir Ddinbych

- Holl reolwyr busnes a chyllid ysgolion Sir Ddinbych
- Penaethiaid ysgolion uwchradd ger ffiniau Sir Ddinbych
- Holl Gynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych
- Holl Gynghorau Cymuned Sir Ddinbych
- Pennaeth Addysg yn Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy, Powys a Gwynedd.
- Cynrychiolwyr esgobaeth berthnasol
- Aelodau Seneddol Lleol
- Aelodau Cynulliad Lleol
- Cynrychiolwyr Undebau Sir Ddinbych
- Holl staff Sir Ddinbych
- Colegau Llandrillo a Chambria
- Ymgynghoriad disgyblion drwy gynghorau ysgolion uwchradd
- GwE
- Sustrans
- Roedd dogfennau hefyd ar gael yn holl Lyfrgelloedd Sir Ddinbych
- Trefnwyd ymweliadau i Gyrrff Llywodraethu ar gais
- Roedd dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Sir Ddinbych
- Darparwyd hysbysiadau ar gyfryngau cymdeithasol

4.1.4 Noder, cyn anfon y ddogfen allan ar gyfer yr ymgynghoriad newidiwyd enw'r polisi i adlewyrchu'r ffaith ei fod hefyd yn cynnwys cludiant ôl-16. Felly enw'r polisi drafft yn awr yw 'Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych'.

4.2 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

4.2.1 O'r ymgynghoriad ar-lein derbyniwyd 64 o ymatebion. Derbyniwyd 15 ymateb pellach naill ai drwy'r post, e-bost neu sgwrs. Mae'r ymatebion unigol wedi'u hasesu a'u categoreiddio. Noder bod rhai ymatebion yn ymdrin â sawl mater ac maent oll wedi'u cofnodi a'u cyfrif yn unigol. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Atodiad 3**.

4.2.2 Croesawyd y polisi gyda sawl ymateb yn nodi ei fod yn darparu mwy o eglurder na'r fersiwn blaenorol, a bod cydnabod perthnasau bwydo rhwng ysgolion a darparu cludiant am ddim ar y seiliau hynny, yn gam ymlaen cadarnhaol ac yn cefnogi lles y plant.

4.2.3 Codwyd y mater o gategoreiddio ysgolion Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas ag Ysgol Bro Cinmeirch (Pentre Llanrhaeadr). Mynegwyd pryderon efallai y byddai disgyblion yn symud i Ysgol Pant Pastynog (Prion) i fod yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim i Ysgol Glan Clwyd (Llanelwy). Roedd pryderon hefyd y gellir gwneud ceisiadau o'r fath ar gyfer Ysgol Pant Pastynog o dan drefniadau yn seiliedig ar Ffydd gan ei bod yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru a reolir yn wirfoddol. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar leoedd sydd ar gael; er y byddai'r Awdurdod yn lleoli disgyblion yn yr ysgol Ffydd arall agosaf ar gyfer ceisiadau o'r fath.

Cafwyd ceisiadau hefyd i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion Ysgol Bro Cinmeirch i Ysgol Glan Clwyd yn ôl disgrisiwn ac/neu y dylai'r ysgol fod yn rhan o glwstwr Glan Clwyd.

- 4.2.4 Oherwydd natur gadarnhaol y newidiadau a wnaed o ran perthnasau ysgolion bwydo, derbyniwyd sawl sylw ynglŷn â gweithredu'r polisi o fis Medi 2017. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith y bydd rhai yn talu am gludiant consesiwn yn 2017/18 pan fydd yn rhad ac am ddim o 2018/19. O dan y ddeddfwriaeth ni ellir caniatáu gweithredu'r newidiadau i bolisi cludiant yr awdurdod tan fis Medi 2018.
- 4.2.5 Holwyd am gost consesiynau a /neu gonsesiwn wedi'i warantu. Bydd yr agwedd hon yn cael ei thrafod gyda Chludiant i Deithwyr i sicrhau ein bod yn cael ein meincnodi yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill Cymru, er mae'r costau hyn yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.
- 4.2.6 Roedd nifer o'r ymatebion yn anghytuno â rhai o agweddau allweddol y gofynion deddfwriaethol y mae'n rhaid i'r Awdurdod weithredu yn unol â nhw; megis yr ysgol addas agosaf neu'r rheolau ynglŷn â chludiant dros 2 neu 3 milltir ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Ni all Sir Ddinbych newid y rhain.
- 4.2.7 O ran llwybrau peryglus, roedd nifer o sylwadau yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol, yn y polisi newydd hwn, i'r materion a godwyd yn 2015. Roedd rhai hefyd wedi gofyn am asesiad ar gyfer yr holl lwybrau ledled y Sir ac nid dim ond pan dderbynnir cais newydd am gludiant. Byddai'n anodd cyflawni cais o'r fath mewn gwirionedd; fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod broses gadarn ar waith i ymgymryd ag asesiadau ar yr holl lwybrau newydd ac rydym wedi asesu a chofnodi dros 150 o lwybrau peryglus ar hyn o bryd.
- 4.2.8 **Ymatebion gan Gynghorau Ysgol**
Diolch i gydweithwyr o dîm rhwydwaith 14-19 Sir Ddinbych, cynhaliwyd sesiynau wedi'u hwyluso gyda disgyblion ysgolion mewn 6 o ysgolion uwchradd Sir Ddinbych. Mae adroddiad ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn wedi'i nodi yn **Atodiad 4**.
- 4.2.9 Derbyniwyd 73 o ymatebion o'r sesiynau hyn a darparodd y broses fforwm priodol i'r disgyblion leisio eu safbwyntiau. Croesawyd y polisi presennol a derbyniwyd sawl sylw cadarnhaol. Cafwyd sylwadau penodol hefyd a oedd yn adlewyrchu'r ymgynghoriad ar-lein, a bydd Cymorth Addysg / Gwasanaethau i Deithwyr yn olrhain y rhain ac yn darparu adborth i gynghorau ysgol yn y dyfodol.

4.2.10 **Newidiadau Arfaethedig Eraill**

Yn dilyn y canllawiau diweddar a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, bydd y broses apêl yn y polisi newydd yn cael ei diwygio ychydig. Awgrymir yn eu canllaw arfer gorau y dylid cael proses apêl gyda 2 gam gyda swyddogion yn asesu'r apêl i ddechrau a cham 2 yn banel apêl lle gall rhieni/gofalwyr fod yn bresennol. Bydd y broses hon yn cael ei mabwysiadu yn y Polisi Cludiant i Ddysgwyr newydd.

Crynodeb

- 4.2.12 Darparodd y broses ymgynghori adborth gwerthfawr ar sawl maes. Roedd yn cael ei ystyried fel gwelliant sylweddol ac ymagwedd sy'n fwy cytbwys na'r polisi blaenorol.

4.2.13 Mae'r holl sylwadau unigol a wnaed, sydd yn yr Atodiadau, wedi'u nodi. Bydd rhai o'r awgrymiadau ar gyfer mân welliannau yn cael eu hymgorffori a hysbyswyd Cludiant i Deithwyr ynglŷn ag unrhyw faterion penodol a godwyd ynglŷn â'u swyddogaethau.

4.3 Y camau nesaf

4.3.1 Yn dilyn y cam ymgynghori, roedd yr amserlen wreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol bod y polisi'n cael ei gadarnhau erbyn diwedd mis Mehefin 2017, gyda'r polisi'n cael ei gymeradwyo gan y Cabinet cyn mis Medi 2017. Yna gellir gweithredu'r polisi o fis Medi 2018.

4.3.2 Cynigir nad oes angen newid y polisi ei hunan na'i strwythur yn dilyn yr ymgynghoriad a bod yr aelodau yn rhoi cymeradwyaeth i'r swyddogion symud ymlaen â'r broses i fabwysiadu a chymeradwyo'r polisi drwy'r Cabinet.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r gwasanaethau a ddisgrifir yma oll yn gefnogol i flaenoriaeth "Gwella Addysg".

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae disgwyliad bydd cost y gwasanaeth yn cynyddu i ddiwallu'r rhwymedigaethau statudol o dan Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r newidiadau yn y polisi. Fel y soniwyd yn y cyfarfod Archwilio blaenorol, mae Cymorth Addysg yn gweithio gyda Chludiant i Deithwyr ar oblygiadau cost y drafft newydd, yn enwedig y trefniadau ysgolion bwydo arfaethedig. Fodd bynnag, mae sicrhau bod cyllideb cludiant ysgol wedi'i graddio'n gywir i ddiwallu'r gofynion statudol yn bwysig iawn. Tynnwyd sylw at bwysau cyllidebol posibl o £300,000 ac mae wedi'i ariannu fel rhan o gyllideb gymeradwy'r Cyngor ar gyfer 2017/18. Ni fydd y gost benodol yn eglur nes bo'r contractau newydd wedi'u cadarnhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y [wefan](#), a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn

Nodir canfyddiadau'r Asesiad o Effaith ar Les yn Atodiad 5 ac fe'u darparwyd fel rhan o'r broses ymgynghori hefyd.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Cyflwynwyd adroddiad blaenorol i Bwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Chwefror 2017. Gofynnwyd i holl Aelodau'r Cyngor gymryd rhan yn unigol yn y broses ymgynghori.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n bwysig fod gan y cyngor bolisi cludiant priodol ar waith. Cytunodd yr Aelodau Etholedig y dylid adolygu'r Polisi Cludiant yng Ngweithdy Rhyddid a Hyblygrwydd yr

Aelodau a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2014. Mae'r polisi diwygiedig a gyflwynwyd ar gyfer yr ymgynghoriad yn estyniad o'r gwaith hwn. Mae cyllid ychwanegol wedi'i gytuno fel rhan o gyllideb 2017/18 er bydd y costau gwirioneddol yn dod yn fwy eglur pan y cadarnheir y contractau yn y flwyddyn academaidd newydd.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Efallai bydd cyhoeddusrwydd drwg o ran diweddarau'r Polisi hwn, er mai'r newidiadau yw egluro'r rhwymedigaethau o dan Fesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac ymateb i'r materion a'r pryderon a amlygwyd yn flaenorol yn y polisi cyfredol. Dengys yr ymgynghoriad y croesawyd y newidiadau hyn.

11. Grym i wneud y Penderfyniad

11.1 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

11.2 Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi pwerau Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

Swyddog Cyswllt:

Pennaeth Addysg

Rhif ffôn: 01824 708009

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Sir Ddinbych

Polisi Cludiant i Ddysgwyr

Gwasanaethau Plant ac Addysg

Rheoli Dogfennau

Cofnod Diwygio'r Ddogfen

Medi 2015	Fersiwn 1
Mawrth 2017	Fersiwn 2 o'r Ymgynghoriad

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1** Mae hi'n ddyletswydd ar Gyngor Sir Ddinbych i ddarparu cludiant ysgol yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014.
- 1.2** Er mwyn cyflawni'r gofyn hwn, mae'n rhaid i'r Awdurdod dalu sylw i'r agweddau canlynol wrth wneud trefniadau ar gyfer dysgwyr sydd fel rheol yn breswylwyr o fewn Sir Ddinbych:
- Oedran y dysgwr
 - Y pellter o'r cartref i'r ysgol
 - Natur y daith o'r ysgol i'r cartref
 - Ceisiadau am addysg Gymraeg neu Saesneg
 - Ceisiadau am addysg ffydd
 - Anghenion dysgwyr sydd ag anabledau neu anghenion dysgu ychwanegol
 - Anghenion dysgwyr sy'n 'derbyn gofal' gan yr Awdurdod Lleol
 - Anghenion dysgwyr sy'n byw mewn dau gartref (preswyl deuol)
- 1.3** Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr; mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried amgylchiadau pob dysgwr yn unigol, gan ystyried unrhyw gynrychioliadau gan rieni / gwarcheidwaid ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol. Mewn rhai amgylchiadau penodol, mae'r Mesur yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol ddefnyddio disgrisiwn wrth wneud penderfyniadau ar y gwasanaethau a ddarperir. Fe amlinellir yr elfennau disgrisiwn hyn yn adran 3 y polisi hwn.
- 1.4** O dan y polisi hwn fe ddarperir cludiant i fyfyrwyr ôl-16 i Golegau Addysg Bellach fel trefniant yn ôl disgrisiwn. Gweler adran 3.5 a 3.6.
- 1.5** Mae'n rhaid i'r Awdurdod ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim o dan rai amgylchiadau penodol. Amlinellir yr amgylchiadau hyn yn adran 2. Nid yw'r ddyletswydd hon i ddarparu cludiant o'r fath ond yn berthnasol os yw'r plentyn fel arfer yn preswylwyr yn ardal yr Awdurdod.
- 1.6** Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i ddarparu cludiant diogel, effeithlon a chost effeithiol ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n gymwys o dan y polisi hwn.
- 1.7** Efallai y b rhai amgylchiadau lle byddai trefniadau cludiant ychwanegol neu wahanol yn fwy cost effeithiol na'r ddarpariaeth a nodwyd yn y polisi. Felly, os gellir dangos fod y dewis amgen yn fwy cost effeithiol ac effeithlon, mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i ddefnyddio disgrisiwn lle bo'n briodol.
- 1.8** Fe ddarperir cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys rhwng eu cyfeiriad cartref neu fan codi dynodedig, â'r ysgol gymwys y maent wedi eu cofrestru ynddi. Ni ddarperir cludiant ysgol am ddim i gyfeiriad aelod arall o'r teulu neu ffrindiau, cyfeiriad gwaith y rhieni neu gyfleuster gofal plant o unrhyw fath.
- 1.9** Fe ddaw y Polisi hwn i rym ar y 1 Medi 2018. Bydd unrhyw drefniadau cludiant a oedd wedi eu hasesu a'u darparu o dan bolisi blaenorol Sir Ddinbych yn parhau, oni bai fod unrhyw newid yn amgylchiadau'r disgybl a fyddai'n golygu fod yn rhaid gwneud cais

newydd, e.e. symud cartref neu ysgol / Coleg Addysg Bellach. Mae manylion ar sut i wneud cais wedi eu cynnwys yn adran 4.

2. CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

2.1 Ysgolion Cymwys

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn. Mae'r polisi yn cyfeirio at gludiant i ac o ysgolion cymwys yn y categorïau canlynol:

- ysgol gymunedol, reoledig, sefydledig neu wirfoddol a gynorthwyr
- ysgol arbennig nas cynhelir
- uned cyfeirio disgyblion
- ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad anghenion addysgol arbennig
- ac ysgol ymddiriedolaeth wirfoddol a gynorthwyr

2.2 Meini Prawf Pellter

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwr (Cymru) 2008 yn nodi y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr o oed ysgol statudol dim ond os yw'r pellter o'u cartref i'r ysgol addas agosaf o leiaf:

- (a) 2 filltir ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd
- (b) 3 milltir ar gyfer disgyblion Ysgol Uwchradd

2.3 Yr Ysgol Addas Agosaf

Yr ysgol addas agosaf yw ysgol sy'n darparu addysg sy'n briodol i oedran, gallu a dawn y dysgwr, ac unrhyw angen dysgu sydd ganddo. Fel arfer, bydd yn ysgol wedi ei lleoli yn yr ardal y mae'r dysgwr yn byw ynddi, neu ysgol arall (e.e. y tu allan i'r sir) os yw'n agosach i'w cartref.

Gall breswylwyr Sir Ddinbych ddod o hyd i'w hysgol leol agosaf drwy fynd i '[Fy Eiddo](#)' ar dudalen gartref Sir Ddinbych, neu drwy fynd i: <http://mylocalschool.wales.gov.uk/?lang=cy>

2.4 Ysgolion Bwydo

Mae'r Awdurdod yn cydnabod fod rhai Ysgolion Cynradd penodol yn ysgolion bwydo naturiol i rai Ysgolion Uwchradd penodol. Mae Atodiad 1 yn dangos perthnasau y gwahanol ysgolion. Drwy drefniant yn ôl disgresiwn, fe all yr Awdurdod hefyd ddarparu cludiant ysgol am ddim i rai disgyblion o ysgolion uwchradd dynodedig, hyd yn oed os nad yw'r ysgol yn yr ysgol uwchradd addas agosaf iddynt. Mae mwy o wybodaeth yn adran 3.4 o dan Cludiant Ysgol yn ôl Disgresiwn.

2.5 Mesur Pellter

O ran asesiadau'r meini prawf pellter a nodir yn adran 2.2, bydd y cyfrifiad cartref i ysgol yn cadw at yr arweiniad a ddarperir yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014. Bydd y daith i'r ysgol yn cael ei mesur o ffin y cartref at giât yr ysgol, ac fe all gynnwys llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau a llwybrau eraill, yn ogystal â ffyrdd wedi eu mabwysiadu. Nid yw o reidrwydd yn y pellter byrraf gan ddefnyddio ffordd.

Pan fo disgwyl rhesymol i ddysgwr gerdded i'r ysgol, fe fesurir y pellter gan ddefnyddio'r llwybr byrraf ar gael sy'n caniatáu i'r plentyn, ynghyd ag oedolyn cyfrifol fel bo'r angen, gerdded mewn diogelwch rhesymol; gan ystyried oedran ac anghenion y plentyn. Os yw'r cartref ar ffordd nad yw wedi ei mabwysiadu, yna bydd y llwybr yn cael ei fesur o'r fan lle mae'r eiddo yn cyffwrdd priffordd wedi'i mabwysiadu neu lwybr wedi'i fabwysiadu. Bydd pob pellter yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio meddalwedd dewisol yr Awdurdod.

Ar gyfer asesiadau dros y meini prawf pellter a nodir yn adran 2.2, bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol addas agosaf yn cael ei fesur ar hyd y llwybr ffordd byrraf bosib; hynny yw o ffin y cartref at giât yr ysgol addas agosaf gan ddefnyddio meddalwedd dewisol yr Awdurdod. Fodd bynnag, os yw'r cartref ar ffordd heb ei mabwysiadu, yna bydd y pellter yn cael ei fesur o'r man y mae'r ffordd heb ei mabwysiadu yn cwrdd â'r briffordd sydd wedi'i mabwysiadu.

Bydd pob cyfrifiad yn defnyddio mesuriadau pellter i'r 0.1 milltir agosaf, wedi eu mesur gan feddalwedd dewisol yr Awdurdod.

2.6 Cludiant Cynradd ac Uwchradd

Ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol addas agosaf, yn unol â meini prawf y polisi hwn. Fe all yr Awdurdod hefyd gymeradwyo darpariaeth yn ôl disgrisiwn, gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn adran 3.

2.7 Dewis Rhieni / Gwarcheidwaid

Mae gan bob rhiant / gwarcheidwad yr hawl i geisio am le i'w plentyn mewn unrhyw ysgol, cyn belled ag y bo lle yn yr ysgol honno. Pe bai'r cais yn cael ei dderbyn, mae'r rhiant / gwarcheidwad yn colli eu hawl am gludiant ysgol am ddim os nad yw'r ysgol yn yr ysgol addas agosaf, neu yn yr ysgol uwchradd ddynodedig ar gyfer yr ysgol gynradd bwydo y maent yn ei fynychu.

Mae hyn yn bodloni'r gofynion a amlinellir yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014.

PWYSIG - **Cynghorir Rhieni / Gwarcheidwaid i ystyried unrhyw oblygiadau cludiant ysgol cyn mynegi dewis am le ysgol. Gweler adran 2.3 ynglŷn ag ysgol addas agosaf.**

2.8 Derbyniadau Ysgol

Os nad yw rhieni / gwarcheidwaid wedi gallu diogelu lle i'w plentyn yn eu hysgol addas agosaf, neu os yw eu hysgol uwchradd ddynodedig (o'r ysgol gynradd bwydo briodol) yn llawn, yna bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i'r ysgol addas agosaf nesaf, cyn belled â bod y meini prawf pellter a nodir yn adran 2.2 yn cael eu bodloni.

2.9 **Mannau Codi**

Ym marn gyffredinol Cyngor Sir Ddinbych, fe all y ddarpariaeth o fannau codi ffurfio rhan addas o drefniadau cludiant o dan adran 3 y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Bydd disgwyl i ddysgwyr sy'n gymwys am gludiant adael o fan codi wedi ei benderfynu ymlaen llaw, oni nodir yn wahanol wrth brosesu'r cais. Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i leoli manau codi yn weddol agos i gartrefi'r dysgwyr, a dim pellach na'r pellteroedd statudol a nodir yn adran 2.2. Disgwylir i rieni / gwarcheidwaid ddefnyddio'r manau codi dynodedig i sicrhau fod eu plentyn yn teithio'n ddiogel a phrydlon i'r ysgol ac oddi yno. Bydd unrhyw bellter yn cael ei fesur gan ddilyn yr egwyddorion a nodir yn adran 2.5. Bydd yr asesiad hefyd yn ystyried llwybrau peryglus ac yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn adran 2.10.

Cyfrifoldeb y rhieni / gwarcheidwaid yw sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd y man codi yn brydlon a'u bod yn mynd ar y cerbyd yn ddiogel. Mae'n rhaid iddynt hefyd sicrhau bod oedolyn cyfrifol yn cwrdd â'r plentyn pan fydd yn dychwelyd adref o'r ysgol, os yw oedran neu anghenion y plentyn yn gofyn am hynny.

Os nad oes oedolyn cyfrifol yno i gwrdd â'r plentyn, sydd o oedran neu chyda anghenion sy'n gofyn am gael rywun i'w hebrwng, yna bydd costau ychwanegol yn cael eu codi; oherwydd efallai y byddai hi'n angenrheidiol i Swyddogion gael cyngor gan y Gwasanaethau Plant, a phe bai angen, drefnu i'r plentyn gael ei roi yng ngofal yr Awdurdod Lleol.

Nodyn: Does dim yn cael ei nodi yn y Polisi hwn sy'n creu'r disgwyliad y dylai pob plentyn gerdded i'r manau codi, oherwydd mewn rhai achosion byddai hynny yn amhriodol. Mae'r Awdurdod yn cadw cofrestr o'r llwybrau peryglus y mae'n ymwybodol ohonynt; mae'r gofrestr yn ffurfio rhan o'r broses o ystyried ac asesu ceisiadau cludiant. Fodd bynnag, pe bai rhiant / gwarcheidwad yn credu nad yw defnyddio man codi yn addas ar gyfer eu plentyn, yna fe ddylent ddod â'u pryderon i sylw'r Awdurdod. Yna bydd yr Awdurdod yn ystyried y sefyllfa cyn penderfynu a oes angen unrhyw drefniadau cludiant gwahanol ar gyfer y plentyn hwnnw ai peidio; er mwyn sicrhau fod gofynion y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru 2008) yn cael eu bodloni.

Mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i adolygu'r manau codi er mwyn sicrhau fod y daith yn un ddiogel, ac er mwyn sicrhau fod y ddarpariaeth fwyaf cost effeithiol yn cael ei gweithredu.

Unwaith y bydd cymhwysedd am gludiant ysgol wedi ei gadarnhau, bydd adran Cludiant Teithwyr Sir Ddinbych yn cysylltu â rhieni / gwarcheidwaid i rannu gwybodaeth am y manau codi a ddefnyddir ac amserau'r gwasanaeth.

2.10 Llwybrau Peryglus

O ran y dysgwyr hynny sy'n byw'n nes na'r pellteroedd cymwys statudol a ddangosir yn adran 2.2, bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant ar eu cyfer os yw'n credu fod y llwybr i'r ysgol yn un peryglus. Fe asesir llwybrau peryglus gan un o Swyddogion Diogelwch Ffordd priodol Sir Ddinbych, gan ddilyn y canllawiau a roddir yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014.

Os yw manau codi yn cael eu defnyddio, bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn ystyried a oes llwybrau peryglus a all atal dysgwyr rhag cerdded i'r manau hyn, yng ngofal oedolyn cyfrifol fel bo'r angen. Mewn achosion o'r fath, bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal asesiad o'r sefyllfa ac yn darparu cludiant o'r cartref i'r man codi, neu'n uniongyrchol i'r ysgol (pa un bynnag sydd fwyaf effeithlon).

Fe ddylid nodi, pan fo rhieni / gofawlyr wedi defnyddio eu hawl i ddewis ysgol yn ôl dewis rhieni / gwarcheidwaid (gweler adran 2.7), cyfrifoldeb y rhieni / gwarcheidwaid yw sicrhau cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cadw cofrestr o'r holl lwybrau sydd wedi eu hasesu yn Sir Ddinbych, ac yn ychwanegu unrhyw lwybrau newydd sy'n cael eu gwerthuso. Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r gofrestr gyfan bob 5 mlynedd er mwyn sicrhau fod pob llwybr yn dal i ddisgyn o dan y categori cywir.

2.11 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu addysg addas a pherthnasol i bob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu i'w llawn botensial.

Fe asesir lefel yr angen gan weithwyr proffesiynol perthnasol o Adran Addysg Sir Ddinbych, a bydd yr asesiad hwn yn pennu'r math o gludiant a fydd yn cael ei gynnig. Yna fe ddarperir cludiant yn unol â'r cyngor a roddir a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Os oes gan blentyn Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Iechyd a Gofal Addysgol, fe ellir cynnwys cludiant ysgol fel rhan o'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer y plentyn, fel rhan o'u Datganiad / Cynllun Iechyd a Gofal Addysgol. Os ydyw, yna bydd cludiant yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, efallai na fydd cludiant yn cael ei ddarparu os yw'r rhieni / gwarcheidwaid wedi defnyddio eu hawl i ddewis ysgol nad yw'n yr ysgol addas agosaf (Gweler adran 2.7).

Os nad yw cludiant ysgol yn cael ei gynnwys yn Natganiad / Cynllun y plentyn, yna efallai y bydd ganddo yn dal hawl i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol o dan y polisi, cyn belled â bod yr ysgol y mae'n ei fynychu yn yr ysgol addas agosaf gyda lle iddo, a'i fod yn bodloni'r meini prawf.

2.12 Plant sy'n Derbyn Gofal

Plant sy'n Derbyn Gofal yw'r term a ddefnyddir yn Neddf Plant 1989 i ddisgrifio plant o dan 18 oed sy'n derbyn gofal a llety gan Wasanaeth Plant yr Awdurdod Lleol; yn aml gyda gofawlyr maeth.

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi fod yr un meini prawf asesu yn berthnasol i Blant sy'n Derbyn Gofal â phlant nad ydynt mewn gofal; fodd bynnag, nid oes angen i'r ysgol y maent yn ei fynychu fod yn yr ysgol sydd agosaf i'w cartref nac i gyfeiriad eu lleoliad.

Os yw'r Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn mynychu ysgol sy'n agosach na'r pellter a nodir yn adran 2.2, yna ni fydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu. Ond, fe ellir defnyddio'r eithriadau a nodir yn adran 3.

Os yw'r Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn mynychu ysgol sydd bellach na'r pellter a nodir yn adran 2.2, yna fe ddarperir cludiant i'r ysgol hwnnw er mwyn sicrhau parhad o ran addysg a chyn lleied o aflonyddwch ag sydd bosib, gan hefyd sicrhau lles y plentyn. O ran teithiau i leoliadau sydd y tu allan i'r sir, neu rai sy'n cynnwys teithiau hir, fe ellir defnyddio prawf rhesymoldeb. Bydd y prawf hwn yn ystyried pellter, amser y daith a pha mor agos yw sefydliadau addas eraill.

2.13 Preswyllo Deuol

Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant i ddysgwyr sy'n byw mewn mwy nag un cartref – oherwydd eu hamgylchiadau teuluol. Bydd angen i o leiaf un o'r cartrefi hyn fod wedi ei leoli yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar y ffaith fod yr ysgol a fynychir yn yr ysgol addas agosaf i'r prif gartref, neu a gytunir i fod yn yr ysgol addas agosaf gan ystyried lleoliad y ddau gartref. Mae'n rhaid darparu tystiolaeth o breswyllo deuol; byddwn yn ystyried y prif gartref i fod yn y cyfeiriad cartref sy'n derbyn y budd-dal plant.

Os yw'r ail gartref mewn Awdurdod Lleol gwahanol, yna cyfrifoldeb yr Awdurdod hwnnw fydd ystyried trefniadau cludiant y daith honno i'r ysgol. Felly, fe ddylai rhieni / gwarcheidwaid wneud cais i'r Awdurdod Lleol berthnasol honno.

3. CLUDIANT YSGOL YN ÔL DISGRESIWN

3.1 Trefniadau yn ôl Disgresiwn

O fewn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, gellir gwneud trefniadau yn ôl disgresiwn o dan adran 6 o'r Mesur. Mewn rhai achosion fe ellir codi tâl ar y rhiant / gwarcheidwad sy'n gyfrifol.

3.2 Ysgolion Ffydd

Yn ôl disgresiwn, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i'r ysgol ffydd addas agosaf os mai hyn yw dewis y rhiant /gwarcheidwad. Bydd hyn yn digwydd hyd yn oed os nad yw'r ysgol yn yr ysgol addas agosaf. Bydd y meini prawf pellter a nodir yn adran 2.2 yn dal i gael eu defnyddio. Gweler y tabl yn Atodiad 1 am fwy o wybodaeth am ysgolion ffydd.

Os yw'r ysgol ffydd addas agosaf wedi ei lleoli y tu allan i'r Sir yna bydd yr Awdurdod yn dal i ddarparu cludiant.

3.3 Addysg Cyfrwng Gymraeg neu Saesneg

Yn unol ag adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'r Awdurdod yn hyrwyddo'r mynediad at addysg cyfrwng Gymraeg gan ddarparu cludiant yn ôl disgresiwn i'r ysgol cyfrwng Gymraeg neu Saesneg agosaf, yn unol â dewis y rhieni / gwarcheidwaid. Bydd hyn yn digwydd hyd yn oed os nad yw'r ysgol yn eu hysgol addas agosaf.

Addysg Cyfrwng Gymraeg fyddai ysgol sydd â chategori o un ai 1 neu 2 yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Cyfrwng Gymraeg. O ran Categori 2, byddai'n ysgol lle mae o leiaf 80% o'r pynciau (gan eithrio Cymraeg a Saesneg) yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn dangos categorïau Ysgolion Cyfrwng Gymraeg Sir Ddinbych.

Os yw'r ysgol cyfrwng Gymraeg neu Saesneg agosaf y tu allan i'r Sir yna bydd cludiant yn dal i gael ei ddarparu gan yr Awdurdod. Ni fyddwn ond yn ystyried dewis yn erbyn ysgolion Cyfrwng Gymraeg neu Cyfrwng Saesneg. Bydd y meini prawf pellter a nodir yn adran 2.2 yn dal i gael eu defnyddio.

3.4 Trefniadau ar gyfer Ysgolion Bwydo

Ar sail disgresiwn, mae'r Awdurdod yn cydnabod fod rhai ysgolion Cynradd penodol yn ysgolion bwydo naturiol i rai ysgolion Uwchradd penodol. Felly, o ran addysg Uwchradd, fe ellir darparu cludiant ysgol am ddim i un ai'r Ysgol Uwchradd addas agosaf neu'r ysgol Uwchradd y cydnabyddir y mae'r ysgol gynradd yn ei bwydo; cyn belled â bod y dysgwr yn byw yn bellach na'r meini prawf pellter a nodir yn 2.2 ac y cytunir bod y daith yn un rhesymol; mae'r meini prawf hyn i'w gweld isod.

Mae gan yr Awdurdod yr hawl i roi prawf rhesymoldeb i'r rhieni / gwarcheidwaid hynny sy'n ceisio am gludiant ysgol uwchradd ar sail ysgolion bwydo. Er mwyn derbyn cludiant ysgol am ddim yn seiliedig ar yr elfen hon o'r polisi, mae'n rhaid i'r dysgwr:

- Fod wedi bod yn mynychu eu hysgol gynradd addas agosaf o leoliad eu cartref, fel yr aseswyd pan gawsant eu derbyn.
- Bodloni'r meini prawf pellter ar gyfer ysgolion uwchradd a nodir yn adran 2.2.
- Os bydd dysgwyr yn symud tŷ cyn dechrau yn yr ysgol uwchradd yna bydd yn rhaid ail-asesu eu hawl am gludiant, yn unol â'r meini prawf a nodir yn adran 2.
- Mewn achosion lle nad yw dysgwyr wedi mynychu eu hysgol gynradd addas agosaf oherwydd dewis y rhieni / gwarcheidwaid, yna ni fydd adran 3.4 yn berthnasol. Bydd asesiad y cais am gludiant ysgol felly'n seiliedig yn unig ar yr ysgol Uwchradd addas agosaf.

3.5 Cludiant Ôl-16

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant yn ôl disgrisiwn y tu hwnt i oedran ysgol statudol; bydd yn rhaid i ddysgwyr Sir Ddinbych fyw 3 milltir neu bellach i ffwrdd o'r Coleg Addysg Bellach neu'r ysgol addas agosaf. Mae'n rhaid i'r dysgwr fod yn astudio'n llawn amser a bod o dan 19 mlwydd oed ar y 1af o Fedi ar gyfer y flwyddyn academaidd y mae'n astudio'r cwrs. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol uwchradd agosaf a ddynodir gan yr Awdurdod i wasanaethu cyfeiriad cartref y dysgwr yn unig, neu yn achos cyrsiau galwedigaethol llawn amser, i'r coleg Addysg Bellach agosaf. Bydd cludiant rhwng sefydliadau addysgu sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd yn cael ei ddarparu o dan y Rhwydwaith Dysgu 14-19, fel a nodir yn adran 3.6 isod.

3.6 Rhwydwaith Dysgu 14-19

Ar y funud mae'r Awdurdod yn darparu rhwydwaith o deithiau cludiant rhwng rhai ysgolion a cholegau Addysg Bellach, sy'n cydweithio er mwyn sicrhau fod disgyblion yn cael mynediad at amrywiaeth eang o gyrsiau addysgol. Bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu pan fo rhaid i ddysgwyr deithio rhwng sefydliadau i fynychu'r cyrsiau partner angenrheidiol. Fe wneir holl drefniadau y teithiau hyn drwy'r ysgolion a'r colegau Addysg Bellach sy'n cymryd rhan.

3.7 Ad-drefnu Ysgolion

Mewn sefyllfa lle mae ysgol wedi cael ei had-drefnu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried yr opsiynau mwyaf priodol o ran cludiant ysgol. Fe all hyn gynnwys darparu cludiant am ddim am gyfnod penodol, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. Bydd trefniadau o'r fath yn cael eu darparu yn ôl disgrisiwn ac yn cael eu cofnodi fel rhan o'r broses ad-drefnu; fel bod yr ysgolion perthnasol, rhieni / gwarcheidwaid, ac unrhyw unigolion eraill a all gael eu heffeithio, yn ymwybodol o delerau'r trefniadau.

3.8 Symud Tŷ

Mewn sefyllfa lle bo dysgwr sy'n arfer derbyn cludiant ysgol am ddim, yn symud tŷ hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd, bydd y cludiant am ddim yn stopio os nad ydynt yn parhau i fynychu eu hysgol addas agosaf.

Os ydynt rhan o'r ffordd drwy eu cwrs TGAU (blynyddoedd ysgol 10 ac 11), yna bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu cludiant yn ôl disgrisiwn nes bod y blynyddoedd academaidd hyn wedi eu cwblhau; hynny yw, tan ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r drefniant hon yn ddibynnol ar y ffaith fod y dysgwr yn breswylwr arferol yn ardal yr Awdurdod. **Nodyn:** Mae gan yr Awdurdod Lleol hefyd yr hawl i brofi rhesymoldeb y

cludiant a geisir o dan yr amod hwn, gan roi ystyriaeth i'r pellter, amser y daith a pha mor agos ydyw i sefydliadau addas eraill.

Bydd pob ail-asesiad am gludiant ysgol yn dilyn y meini prawf a amlinellir yn adran 2. Nid yw'r adran hwn yn berthnasol os yw rhieni / gofalwyr wedi dewis ysgol nad yw'n eu hysgol addas agosaf, fel y nodir yn adran 2.7.

3.9 Trosglwyddiadau Ysgol wedi eu Rheoli

Pan fo trosglwyddiadau ysgol wedi eu rheoli yn cael eu cefnogi gan bennaeth yr ysgol newydd a'r Gwasanaethau Addysg, bydd rhieni / gwarcheidwaid yn ymwybodol o'r trefniant hwn ac yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ar lefel ysgol. O dan yr amgylchiadau hyn, fe ellir darparu cludiant ysgol yn ôl disgresiwn; bydd y ddarpariaeth yn ffurfio rhan o gytundeb a gweithrediad pob unigolyn wrth geisio newid mewn ysgol er lles y dysgwr.

Cyfrifoldeb y rhiant / gwarcheidwad yw sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n llawn â'r Awdurdod a'r ysgol wrth geisio trosglwyddiad wedi ei reoli. Mae'n rhaid dilysu sefyllfa o'r fath a sicrhau bod tystiolaeth ar gael. Mae hyn yn galluogi'r adran Cymorth i Ysgolion i wneud penderfyniad doeth yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais am gludiant.

Pan nad oes tystiolaeth ar gael, a / neu phan fo rhieni / gwarcheidwaid yn gwrthod cymryd rhan yn y broses gyda'r ysgol a'r Gwasanaethau Addysg, yna bydd y cais am gludiant yn cael eu wrthod. Bydd hyn ar sail diffyg tystiolaeth er mwyn i'r Awdurdod allu gwneud penderfyniad deallus.

3.10 Tynnu Cludiant yn ôl Disgresiwn yn ôl

Fe all yr Awdurdod Lleol dynnu'r ddarpariaeth o gludiant ysgol yn ôl disgresiwn yn ôl, cyn belled â'i fod wedi cytuno a chyhoeddi'r newidiadau perthnasol i'r polisi cyn 1 Hydref o'r flwyddyn sy'n disgyn cyn y flwyddyn academaidd y bydd y newid yn cael ei weithredu.

3.11 Darpariaethau Eraill yn ôl Disgresiwn

Fe ellir gwneud trefniadau eraill sy'n ymwneud â chludiant ysgol yn ôl disgresiwn, o dan adran 6 y Mesur. Fe all y Pennaeth Addysg a'r Gwasanaethau Plant ddefnyddio'r pwerau hyn i ddarparu cludiant am ddim mewn achosion megis:

- Diogelu dysgwr, neu pan fo effaith niweidiol arwyddocaol ar les y dysgwr yn debygol.
- Fe all cludiant ar sail meddygol hefyd fod yn berthnasol o dan y meini prawf hyn, gan gynnwys achosion pan fo gan riant anabledd sy'n cyfyngu gallu'r dysgwr i deithio i'r ysgol heb gludiant am gyfnod o amser; neu pan fo dysgwr yn cael ei effeithio dros dro gan salwch neu anaf.
- Pan fo teulu yn gorfod cael llety brys neu lety dros dro mewn ardal y tu allan i'r ardal breswyllo, fel arfer drwy Wasanaeth Tai'r Awdurdod, mewn ymgais i geisio tarfu cyn lleied â phosib ar addysg y dysgwr.

Nid yw'r rhestr uchod yn un hollgynhwysfawr; efallai y byddai amgylchiadau eraill lle byddai'r Awdurdod yn defnyddio disgresiwn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb o ran disgresiwn, efallai y bydd gofyn i weithwyr proffesiynol perthnasol ddarparu tystiolaeth a bydd unrhyw asesuadau yn cael eu cofnodi.

Pan fo trefniadau cludiant yn ôl disgrisiwn tymor byr yn cael eu darparu, bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y rhieni / gwarcheidwaid yn gwybod pryd bydd y trefniadau hyn yn dod i ben.

4 GWNEUD CAIS AM GLUDIANT

4.1 Mae angen ymgeisio am gludiant ysgol / Coleg Addysg Bellach pan fo'r canlynol yn digwydd:

- Dechrau'r Ysgol Gynradd (dim Meithrin)
- Dechrau'r Ysgol Uwchradd
- Symud i Flwyddyn 7 o Ysgol ganol
- Mynd o flwyddyn 11 i'r Chweched Dosbarth / Coleg Addysg Bellach; neu
- Newid lleoliad y cartref neu'r ysgol

4.2 Gallwch wneud cais am gludiant ar-lein:

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/addysg/grantiau-ac-ariannu/cludiant-ysgol-am-ddim.aspx>

Fel arall, gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais o'r wefan, neu gofyn i gael ffurflen wag wedi ei phostio atoch, a'i dychwelyd i'r cyfeiriad a nodir ar y ffurflen.

4.3 Bydd yr Awdurdod eich hysbysu o ganlyniad eich cais o fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn eich ffurflen. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn gwybodaeth am amseroedd a lleoliadau codi yn ystod gwyliau'r haf er mwyn dechrau ym mis Medi, neu cyn gynted ag y bo modd ar gyfer unrhyw geisiadau canol y flwyddyn ysgol. Bydd y manylion hyn yn cael gyrru atoch gan adran Cludiant Teithwyr Sir Ddinbych.

4.4 Os bydd eich amgylchiadau'n newid yn ystod y flwyddyn ysgol, mae'n rhaid ichi roi gwybod i'r Awdurdod Lleol. Er enghraifft, pe baech yn symud tŷ neu newid ysgol yna byddai angen ichi ail-ymgeisio am gludiant ysgol bryd hynny. Os ydych yn ymgeisio yn ystod y flwyddyn ysgol, cofiwch wneud hynny cyn gynted ag y gallwch ar ôl ichi gael cadarnhad o'ch cyfeiriad newydd.

4.5 Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn ar bob mater sy'n ymwneud â chludiant yn Llawlyfr i Rien Sir Ddinbych:

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/addysg/derbyn-i-ysgol.aspxw>

5. GWYBODAETH ARALL

5.1 **Addysg Dosbarth Meithrin**

Nid yw'r Awdurdod yn darparu cludiant ar gyfer plant sy'n mynychu'r ysgol feithrin na dosbarthiadau meithrin pan fyddant yn 3 neu 4 mlwydd oed. Fe ddarperir cludiant i blant cymwys o ddechrau'r flwyddyn ysgol lle bydd y plentyn yn troi'n 5 ac yn dechrau addysg llawn amser, fel arfer y dosbarth derbyn.

5.2 **Clybiau y Tu Allan i'r Ysgol**

Nid yw'r Awdurdod yn darparu cludiant i nac o glybiau ysgol (e.e. clwb brecwast, clwb ar ôl ysgol ac ati) na gweithgareddau allgyrsiol sy'n disgyn y tu allan i'r cwricwlwm statudol. Cyfrifoldeb y rhiant / gwarcheidwad yw sicrhau fod trefniadau cludiant priodol yn cael eu trefnu ar gyfer y gwasanaethau hyn.

5.3 **Newidiadau mewn Polisi**

Pe bai angen newid y polisi hwn, bydd yn rhaid i'r Awdurdod ddilyn y gofynion a amlinellir yn Rheoliadau Gwybodaeth Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009. O dan y rheoliadau, byddai'n rhaid i'r Awdurdod ymgynghori, cytuno a chyhoeddi unrhyw newidiadau i'r polisi cyn 1 Hydref o'r flwyddyn sy'n disgyn cyn y flwyddyn academiaidd y bydd y newidiadau'n dod i rym.

Pe bai angen, fe allai'r Awdurdod hefyd gyhoeddi canllaw eglurhad ychwanegol ochr yn ochr â'r polisi hwnnw. Byddai unrhyw ganllaw o'r fath ar gael o wefan yr Awdurdod.

6. **Y Ddarpariaeth Gludiant**

6.1 **Dulliau Teithio**

Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ddarparu'r dull teithio mwyaf addas ar gyfer pob dysgwyr cymwys, gan sicrhau fod y ddarpariaeth yn un diogel ac yn y dull mwyaf cost effeithiol o deithio. Gall hyn olygu teithio ar fws, coets, bws mini neu dacsï ar gytundeb ysgol, neu gan ddefnyddio unrhyw gludiant cyhoeddus presennol. Mae'r gwasanaethau hyn a'u cytundebau cysylltiol yn cael eu trefnu a'u rheoli gan adran Cludiant Teithwyr Sir Ddinbych.

6.2 Cludiant Consesiynol

Os nad yw dysgwr yn gymwys i dderbyn cludiant ysgol am ddim, fel a nodir yn y polisi hwn, ac mae lleoedd gwag ar gael ar wasanaeth yr Awdurdod, yna fe ellir cynnig y rhain fel lleoedd consesiynol. Byddai'r drefniant hon yn ddibynnol ar yr amodau canlynol:

- Bydd tâl rhesymol yn cael ei godi pob tymor. Bydd hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, cyn y flwyddyn ysgol newydd.
- Fe ellir tynnu lleoedd consesiynol yn ôl ar fyr rybydd pe na bai'r lle ar gael mwyach, neu pe bai dysgwr cymwys angen y lle hwnnw. Mewn achosion o'r fath, byddai ad-daliad gyfrannol yn cael ei chyfrifo a'i thalu'n ôl i'r rhiant / gwarcheidwad.
- Ni ellir cyhoeddi pasiau bysys consesiynol ar fyr rybydd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd gan fod angen gweld os oes lle gwag ar gerbydau cytundeb yn gyntaf.
- Ni fydd lle consesiynol fel arfer yn cael ei gynnig pan fo cludiant cyhoeddus yn rhedeg ynghyd â chludiant ysgol. Mewn achosion o'r fath, byddai disgwyl i rieni / gwarcheidwaid ddefnyddio'r cludiant cyhoeddus presennol.

6.3 Taliadau Cludiant

O dan rhai amgylchiadau efallai y gellir cynnig taliad enwol i rieni fel cyfraniad tuag at y gost o gludo eu plant. Dim ond mewn amgylchiadau arbennig y defnyddir yr opsiwn hwn, a lle mae anawsterau trefnu cludiant ysgol ar gyfer dysgwyr cymwys. Nid oes rhaid i rieni / gwarcheidwaid dderbyn yr ad-daliad hwn, a fyddai fel arfer yn swm penodol a delir yn ôl y filltir ar gyfer y milltiroedd a deithir dros ddwy daith nôl a blaen bob dydd; fodd bynnag, fe ellir ystyried hyn fel y dull mwyaf priodol o deithio.

6.4 Ymddygid wrth Deithio

Mae disgwyl i ddysgwyr sy'n teithio ar gerbydau gwasanaeth neu gerbydau cytundeb a ddarperir gan yr Awdurdod, i ymddwyn yn dda ar bob cyfri gan ufuddhau y Cod Teithio i'r Ysgol, gweler Atodiad 2. Mae'r ddogfen lawn ar [gael yma](#).

Fe all unrhyw ddysgwr sy'n camymddwyn, achosi difrod neu anaf i'r cerbyd, gyrrwr neu'r teithwyr, neu fygwth diogelwch teithwyr eraill a / neu'r cerbyd, golli eu darpariaeth cludiant. Bydd unrhyw ddysgwr nad ydynt yn gymwys i dderbyn cludiant ysgol am ddim, ond yn teithio ar wasanaeth cytundeb ar sail consesiynol, yn destun yr un rheolau hefyd.

Mae ymddygiad dysgwyr ar wasanaeth cludiant ysgol yn hollbwysig, felly mae disgwyl i rieni / gwarcheidwaid gefnogi'r Awdurdod, ysgolion, gweithredwyr cludiant a'u staff er mwyn sicrhau ymddygiad da. Dylid deall yn glir, mewn achos o gamymddwyn, mai un o'r cosbau eithaf yw colli'r hawl i dderbyn cludiant. Mewn achosion o'r fath, bydd cost llawn cludiant i ac o'r ysgol yn disgyn ar y rhiant / gwarcheidwad.

Mae'r Awdurdod yn annog adborth gan ddarparwyr y gwasanaeth ac ysgolion o ran y defnydd o'r gwasanaeth cludiant ysgol a ddarperir. Bydd cofnod yn cael ei gadw o unrhyw ddigwyddiadau ac unrhyw ymchwiliadau perthnasol. Pe bai angen, fe hysbysir rhieni / gwarcheidwaid o unrhyw ddigwyddiadau, os gellir profi fod plentyn neu blant wedi bod yn achosi problemau.

6.5 Monitro Gwasanaethau

Mae gan yr Awdurdod yr hawl i wirio gwasanaethau cludiant ysgol ar hap er mwyn sicrhau fod pawb sy'n teithio yn gymwys i deithio. Os canfyddir unrhyw ddysgwyr yn teithio a nad ydyw'n gymwys i wneud hynny, bydd yr adran Cludiant Teithwyr yn cofnodi'r achos ac yn cysylltu â'r rhieni / gwarcheidwaid perthnasol a'u hysbysu o'u opsiynau.

6.6 Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Mae adran Cludiant Teithwyr Sir Ddinbych yn rheoli a threfnu'r holl gytundebau cludiant ysgol gyda'r darparwyr gwasanaeth priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod gan bob gyrrwr a hebryngwr cludiant ysgol wiriad DBS. Nodyn: dim ond ar Wasanaethau Ysgolion Cynradd y cyflogir hebryngwyr a hynny dim ond pan fo hi'n berthnasol, neu os oes gan blentyn angen dysgu ychwanegol sy'n gofyn am hebryngwr.

6.7 Tywydd Garw

Fe all tywydd garw effeithio'r gwasanaeth cludiant ysgol a'i ddarpariaeth; felly, gan fod diogelwch yn flaenoriaeth, bydd y darparwyr cludiant yn penderfynu a fydd y gwasanaeth yn rhedeg a'i peidio. Mewn tywydd garw, yn enwedig os yw'r rhagolygon yn rhagweld y bydd y tywydd yn gwaethygu, fe gynghorir contractwyr i beidio â rhedeg y gwasanaeth.

Bydd yr adran Cludiant Teithwyr yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod ysgolion yn ymwybodol pan fo cludiant ysgol yn debygol o gael ei effeithio. Bydd manylion am newidiadau o'r fath ar gael ar wefan y Cyngor.

7. APELIADAU

- 7.1** Fel arfer, bydd rhiant / gwarcheidwad yn cael gwybod o fewn 15 diwrnod gweithio os nad yw eu cais am gludiant ysgol wedi bod yn llwyddiannus. Bydd yr Awdurdod hefyd yn rhoi cyfle i'r rhiant / gwarcheidwad apelio, gan gynnig cyngor ar y drefn apelio. Mae'n rhaid gyrru'r apêl at yr Awdurdod o fewn 20 diwrnod gweithio ar ôl dyddiad y gwrthodiad.
- 7.2** Fe ddylai rhieni / gwarcheidwaid ysgrifennu at yr Awdurdod yn nodi eu dymuniad i apelio. Fe ddylid ei anfon at admissions@denbighshire.gov.uk gan nodi'r rheswm dros eu hapêl a nodi unrhyw amgylchiadau y credant sy'n berthnasol ac a all effeithio'r penderfyniad. Fe ddylid cyflwyno tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r amgylchiadau hyn gyda'r apêl. Fe ellir postio'r apêl ac unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r cyfeiriad canlynol:

Cymorth i Ysgolion
Cyngor Sir Ddinbych
PO Box 62,
Rhuthun
LL15 9AZ

- 7.3** Bydd panel o swyddogion annibynnol o Gyngor Sir Ddinbych yn ystyried yr apêl yn unol â'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ac yn gwneud penderfyniad ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd. Bydd penderfyniad y panel apêl ar gael o fewn 20 diwrnod gweithio o dderbyn yr apêl.

Bydd y panel yn cynnwys swyddogion yr Awdurdod Lleol nad oeddent wedi cymryd rhan yn y cais gwreiddiol am gludiant ysgol. Bydd cyfarfod y panel yn cael ei gofnodi a bydd y cofnodion ar gael. Bydd y panel yn ystyried yr holl dystiolaeth sy'n cefnogi'r apêl. Pe baent yn dymuno, fe allai rhieni / gwarcheidwaid fynychu'r cyfarfod er mwyn cyflwyno crynodeb byr o'u hapêl. Bydd cyfle hefyd i'r Swyddogion Cymorth i Ysgolion ddarparu gwybodaeth bellach am eu hasesiad i'r panel.

- 7.4** Wedi'r cyfarfod apelio, bydd yr adran Cymorth i Ysgolion yn ysgrifennu at y rhiant / gwarcheidwad i roi gwybod iddynt am ganlyniad eu hapêl. Yn dilyn y penderfyniad hwn, nid oes dim hawl pellach i apelio.
- 7.5** Bydd yr adran Cymorth i Ysgolion yn cadw cofnodion o apeliadau blaenorol er mwyn sicrhau cysondeb. Os yw unrhyw wybodaeth gefnogol ychwanegol a ddarperir gan yr apelydd, fel a geisir o dan 7.2, yn gyson ag apeliadau blaenorol a gynhaliwyd, yna efallai na fyddai angen y cam apelio ffurfiol ac yn dilyn asesiad fe ellir hysbysu'r apelydd o'r canlyniad yn uniongyrchol.

8.1 Ceisiadau Cludiant

Os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â cheisiadau yna e-bostiwrch admissions@denbighshire.gov.uk neu ffoniwch 01824 706000

8.2 Gwasanaethau Cludiant Teithwyr

Os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth gweithredol yna e-bostiwrch passenger.transport@denbighshire.gov.uk neu ffoniwch 01824 706000

8.3 Cludiant 14-19

Os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â chludiant rhwng sefydliadau ar gyfer y rhwydwaith ddysgu 14-19 yna e-bostiwrch admissions@denbighshire.gov.uk neu ffoniwch 01824 706000

8.4 Cwynion am Gludiant

Os hoffech gwyno yna e-bostiwrch passenger.transport@denbighshire.gov.uk neu ffoniwch 01824 706000

8.5 Derbyniadau Ysgol

Os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â Derbyniadau Ysgol yna e-bostiwrch admissions@denbighshire.gov.uk neu ffoniwch 01824 706000

8.6 Cludiant ADY

Os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â chludiant ADY yna e-bostiwrch admissions@denbighshire.gov.uk neu ffoniwch 01824 708064

9. Dogfennau Perthnasol

The Learner Travel (Wales) Measure 2008

[Available here](#)

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

[Ar gael yma](#)

Learner Travel Statutory Provision and Operational Guidance 2014

[Available here](#)

Teithio gan Ddysgwyr Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014

[Ar gael yma](#)

The Travel Behaviour Code

[Available here](#)

Cod Ymddygiad wrth Deithio

[Ar gael yma](#)

Learner Travel Information (Wales) Regulations 2009.

[Available here](#)

Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/569/pdfs/wsi_20090569_mi.pdf

Clwstwr Ysgol Uwchradd	Yr Ysgolion Cynradd Bwydo a Gydnabyddir	Ysgol Ffydd	Ysgol Addas Arall sy'n Agos
Ysgol Dinas Brân Iaith Gymraeg Categori 2	Bryn Collen	Na	
	Caer Drewyn	Na	
	Carrog	Na	
	Gwernant Cymraeg Categori 1	Na	Ysgol Morgan Llwyd
	Bro Dyfrdwy Cymraeg Categori 1	Na	Y Berwyn / Ysgol Brynhyfryd
Ysgol Glan Clwyd Iaith Gymraeg Categori 1	Dewi Sant Cymraeg Categori 1	Na	
	Henllan Cymraeg Categori 1	Na	
	Tremeirchion Cymraeg Categori 1	Ydy Eglwys yng Nghymru	
	Twm o'r Nant Cymraeg Categori 1	Na	
	Y Lllys Cymraeg Categori 1	Na	
	Pant Pastynog Cymraeg Categori 1	Ydy Eglwys yng Nghymru	Ysgol Brynhyfryd
Ysgol Uwchradd Dinbych	Bodfari	Na	
	Cefn Meiriadog	Na	Emrys Ap Iwan
	Esgob Morgan	Ydy Eglwys yng Nghymru	Y Santes Ffrais / YU y Rhyl / BEJ
	Faenol	Na	Emrys Ap Iwan
	Frongoch	Na	
	Pendref	Na	
	Ysgol Fabanod Llanelwy	Ydy Eglwys yng Nghymru	Babanod yn unig: Esgob Morgan, Trefnant, Y Santes Ffraid neu BEJ
	Trefnant	Ydy Eglwys yng Nghymru	
	Ysgol Fabanod Y Parc	Na	
Ysgol Uwchradd y Rhyl	Bryn Hedydd	Na	
	Christchurch	Na	
	Emmanuel	Na	
	Llywelyn	Na	
	Y Castell	Na	Emrys Ap Iwan

Clwstwr Ysgol Uwchradd	Yr Ysgolion Cynradd Bwydo a Gydabyddir	Ysgol Ffydd	Ysgol Addas Arall sy'n Agos
Ysgol Brynhyfryd Iaith Gymraeg Categori 2	Betws GG Cymraeg Categori 1	Na	
	Borthyn	Ydy Eglwys yng Nghymru	Ysgol y Santes Ffraid
	Bro Cinmeirch Cymraeg Categori 1	Na	Ysgol Glan Clwyd
	Bro Elwern Cymraeg Categori 1	Na	
	Bro Famau	Na	Mold Alun
	Bryn Clwyd	Na	Ysgol Uwchradd Dinbych
	Carreg Emlyn Cymraeg Categori 1	Na	
	Dyffryn Iâl Cymraeg Categori 2	Ydy Eglwys yng Nghymru	Mold Alun, Ysgol y Santes Ffraid Maes Garmon
	Gellifor	Na	
	Llanbedr	Ydy Eglwys yng Nghymru	
	Llanfair Cymraeg Categori 2	Ydy Eglwys yng Nghymru	Ysgol y Santes Ffraid
	Pen Barras Cymraeg Categori 1	Na	
	Pentrecelyn Cymraeg Categori 1	Na	
	Rhewl Cymraeg Categori 2	Na	
	Stryd y Rhos	Na	
Ysgol Uwchradd Prestatyn	Bodnant	Na	
	Clawdd Offa	Na	
	Hiraddug	Na	
	Melyd	Na	
	Penmorfa	Na	
Y Bendigaid Edward Jones Ysgol Uwchradd Gatholig Rhufeinig	Ysgol Mair	Ydy Catholig Rhufeinig	Ysgol Uwchradd y Rhyl
Ysgol 3-19 y Santes Ffraid o gymeriad a thraddodiad Catholig Rhufeinig	Fel ysgol o 3 oed ymlaen, cydnabyddir fod gan Ysgol y Santes Ffraid ysgol gynradd bwydo ei hunan ar y safle.		

11. ATODIAD 2

COD YMDDYGIAD WRTH DEITHIO AR FWS YSGOL

- Pan fyddwch yn aros yn y safle bysiau, dylech bob amser ddisgwyl yn gall, gan sefyll i ffwrdd o'r ffordd.
- Trefnwch gyda'ch rhiant / gwarcheidwad beth i'w wneud pe na bai'r bws yn cyrraedd neu os byddwch yn ei fethu.
- Pan fo'r bws yn cyrraedd, arhoswch iddo stopio. Peidiwch byth â rhuthro am y drws.
- Dangoswch eich pas bws (os oes gennych chi un) wedi ichi fynd ar y bws.
- Ar y bws ysgol fe ddylech aros yn eich sedd drwy gydol y daith.
- Ar fws cyhoeddus, dewch o hyd i sedd, os oes un ar gael.
- Peidiwch fyth â gadael eich bagiau neu eiddo arall i lenwi'r eil.
- Gwisgwch eich belt os oes un ar gael.
- Peidiwch â thynnu sylw'r gyrrwr pan fo ef neu hi'n gyrru.
- Peidiwch â bwyta nac yfed ar y bws.
- Peidiwch â thaflu unrhyw beth o fewn y bws, nac oddi ar y bws.
- Peidiwch â difrodi na fandaleiddio unrhyw ran o'r bws.
- Peidiwch ag agor a chau drysau'r bws, dim ond mewn argyfwng.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu gynorthwywyr teithio bob amser.
- Os bydd damwain, arhoswch ar y bws nes bod rhywun yn dweud wrthoch am adael. Os nad yw hi'n ddiogel ichi aros ar y bws, yna gadewch y bws gan ddefnyddio'r allanfa fwyaf diogel.
- Peidiwch fyth â cheisio mynd oddi ar y bws pan fo'n dal i symud.
- Fe ddylech ddod oddi ar y bws yn gall a synhwyrol bob amser, gan fynd â'ch holl eiddo gyda chi.
- Peidiwch fyth â chroesi'r ffordd o flaen y bws na'r tu ôl iddo.

COD YMDDYGIAD WRTH DEITHIO

Mae eich diogelwch yn bwysig iawn. Mae'n rhaid ichi ymddwyn yn gyfrifol a diogel wrth ichi deithio i ac o'r ysgol neu goleg – pa un ai ag ydych yn teithio ar fws, trê, tacsî, beic, yn cerdded neu mewn unrhyw ffordd arall. Os ydych yn teithio ar fws i'r ysgol neu goleg, yna mae'n rhaid ichi ddilyn rheolau'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fws Ysgol hefyd.

Os nad fyddwch yn dilyn y Cod hwn, er mwyn eich diogelwch eich hunan a phobl eraill, fe all yr awdurdod lleol, yr ysgol neu goleg, weithredu yn eich erbyn. Fe all hyn olygu colli eich hawl i gludiant ysgol neu hyd yn oed eich gwahardd o'r ysgol.

Eich Cyfrifoldeb chi

- Parchwch eraill, gan gynnwys disgyblion eraill, gyrrwyr a'r cyhoedd.
- Parchwch y cerbydau ac eiddo.
- Byddwch yn gwrtais bob amser.
- Peidiwch fyth â thafu ysbwriel.
- Fe ddylech ufuddhau'r gyfraith bob amser.

Eich Diogelwch

- Fe ddylech ymddwyn yn dda wrth deithio.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr bob tro wrth ichi deithio.
- Peidiwch â thynnu sylw'r gyrrwr.
- Croeswch y ffordd yn ddiogel a chall.
- Teithiwch gan ddilyn y llwybr mwyaf diogel.

Eich Hawliau

- Bod yn ddiogel wrth deithio.
- Cael eich trin yn deg a chyda pharch.
- Dweud wrth rywun os oes unrhyw beth yn achosi problemau ichi.
- Peidio â chael eich bwlio.

Cofiwch roi gwybod i athro, rhiant neu yrrwr am unrhyw ymddygiad drwg neu fwlio yr ydych yn ei weld.

**Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych
Denbighshire's New Learner Transport Policy
Ymgynghoriad / Consultation**

1) Nodwch eich enw / Please state your name.

2) Rhowch gyfeiriad e-bost dilys yma i dderbyn cadarnhad ar ôl ichi gwblhau'r ymgynghoriad. Please provide a valid email address for confirmation to be sent after completion.

3) Nodwch fel pa un rydych yn ymateb:
Indicate whether you are responding as a:

- Rhiant / Parent
- Disgybl / Pupil
- Aelod o Staff Ysgol / School Staff Member
- Cyngorydd / Councillor
- Aelod o'r Gymuned / Community Member
- Arall (nodwch) / Other (please specify)

4) Rhowch eich sylwadau ynglŷn â newidiadau arfaethedig y Polisi newydd Cludiant i Ddysgwyr. Please provide your comments regarding the changes proposed in the new Learner Transport Policy.

5) A oes unrhyw beth yn y Polisi newydd Cludiant i Ddysgwyr y byddech yn ei newid? Is there anything in the new Learner Transport Policy that you would change?

6) A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi mewn perthynas â'r Polisi newydd Cludiant i Ddysgwyr neu Gludiant i'r Ysgol yn gyffredinol? Is there anything else you wish to raise in connection with the new Learner Transport Policy or School Transport in general?

Os oes unrhyw gwestiynau penodol rydych yn dymuno eu gofyn
ynghlŷn â'r ymgynghoriad, yna cysylltwch â
derbyniadau@sirddinbych.gov.uk neu ffoniwch 01824 706000

If there are any specific questions you wish to ask regarding this
consultation then contact admissions@denbighshire.gov.uk or
telephone
01824 706000

Appendix 3

Summary of Responses and Comments Provided	Number of Responses
Liked the changes regarding feeder relationships in support of child welfare	21
Liked the clarity of wording in the policy	17
Parents / carers should be able to choose category 1 Welsh language schools over category 2 as they are not the same.	14
Ysgol Bro Cinmeirch should be part of Ysgol Glan Clwyd cluster and/or they should get free transport to Glan Clwyd by discretion	10
Want changes to come in to effect Sept 2017 and/or doesn't want to pay in 2017/18	9
Responded to consultation but no comments provided and/or issues noted	8
Concessions should be cheaper and/or guaranteed	7
Concerns over Bro Cinmeirch losing pupils, losing its 'Welshness' and/or pupils going to Pant Pastynog by preference of Faith education.	7
Glad Denbighshire will provide free transport for all pupils attending Pant Pastynog to Ysgol Glan Clwyd	5
Don't agree with nearest suitable school and feel they should get transport to any school requested.	4
Doesn't agree with the 2 and 3 miles rule under legislation and that it should be changed	4
Out of County resident who wants free transport to Ysgol Dinas Bran or is complaining about existing arrangements	4
All routes in Denbighshire should be assessed for hazards and not just when applications are received	4
Concerns about having to walk to school during winter / autumn months and/or how parents get information re services not running in bad weather	4
Suggestions of extra content and/or to change layout of the policy	4
All parents / carers should pay for school transport and/or it should be means tested	3
Calculation of distance should not be by shortest route and / or don't agree with current method of calculation	3
Feels the policy is negatively biased against Welsh language	3
Continuity for siblings going to the same school when policies change	3
Post 16 transport should allow students to go where they want and/or it should go beyond 19 years of age.	2
Concerns regarding safety on Denbighshire transport services	2
Positively liked the changes made regarding hazardous routes assessment	2
Dyserth walking route to Prestatyn is still hazardous	2
Route from Rhuddlan to Ysgol Dewi Sant is still hazardous	2
Wants hazardous routes assessed by non-Denbighshire staff	1

All current hazardous routes should be available online or in policy	1
Wants Denbighshire to provide nursery transport	1
Routes change over time and need to be reassessed for hazards. Denbighshire should be aware	1
Wants regular SEN drivers to reduce the stress of change on pupils	1
Denbighshire should provide free transport for extra curricula activities	1
Denbighshire should pay allowances if parents / carers want to transport themselves	1
Wants an adult to accompany children in each taxi service	1
Not sure what the consultation is about and/or why it has been sent to them	1
Concerned about conduct of drivers on Council services	1
Are Denbighshire looking how the current policy has adversely affected families?	1
Pick-up points should be properly assessed for hazards	1
Could rail be an option for Corwen students to get to Ysgol Dinas Bran?	1
Denbighshire's consultation process for this policy is far improved from last time	1
Pupils should not be using public transport	1
Poor quality of the transport provided	1
Disagrees that Welsh language should receive free transport by preference	1
Policy should have more information re criteria for nearest suitable school	1
Post 16 travel information requires further clarification in policy	1
Make sure parents are aware of transport policy before admissions process	1
If parents are prepared to take pupils to the pick-up points even though they didn't attend their nearest suitable school, they should be allowed to do so.	1

Report Title:	School Council Responses – Learner Transport Policy
Detail of Consultation:	Learner Transport Policy Consultation
Lead Officer:	Ian Land
Report Author:	Elin Kerry
Date:	18/05/2017

1. Outline

The purpose of this consultation was to provide learners within Denbighshire secondary schools an opportunity to respond to the Local Authority's Draft Learner Transport Policy which has recently been reviewed

2. Method

The consultation with learners was conducted in a way which was accessible and clear for learners to understand. A young people's version of the consultation document was produced, which detailed the reason for the consultation, as well as highlighting the main content of the policy. At the end of this document, the 3 consultation questions were situated where learners were able to provide their individual response.

As well as individual responses, the consultation was held within a focus group setting, where learners were able to discuss the policy within a group setting, and a series of questions were asked to gain an understanding of the level of the learners' knowledge.

A total of 73 responses have been received to date following visits to 6 Secondary Schools Councils within the Local Authority.

3. Focus Groups

In order to gain qualitative responses, and gain an understanding of what knowledge the learners had in relation to the existence of the policy, a series of questions were agreed and these were asked during the consultation sessions. The main points to consider are as follows:

- i) The majority of learners who took part in the consultation were not aware of the policy
- ii) Some learners were aware of the '3 mile radius' eligibility criteria
- iii) Learners had an understanding of 'hazardous routes'
- iv) Learners thought it was fair that some schools work in partnership with transition
- v) A proportion of the learners were not aware of the Travel Behaviour Code, and suggested that consequences were needed if these rules were broken

4. Consultation Document

As the reviewed policy and consultation were lengthy, it was agreed that a version for young people would be produced in order to make it clearer to understand, and to highlight main points. The document detailed why the consultation was happening, the main points within the policy, and concluded with the 3 consultation questions. It was made clear at the beginning of the session by the facilitator that it is important that young people have an opportunity to respond to the consultation, though not all comments and suggestions would be implemented or changed. If that would be the case, a response would be provided to the learners to explain why the changes / comments have not been considered. Additional comments in relation to learner transport were welcome, again, learners were encouraged to leave a name and school detail in order for officer to provide them with a timely response if required.

5. Responses

A total of 73 responses were received following sessions with 6 Secondary School Councils. As there were 3 main questions, responses were pooled into themes or common responses. Details below.

Question 1:

What do you think about the changes to the Learner Transport Policy?

Summary of Comments	No.
The changes are fair	13
They are good ideas and policies	12
They are positive and will benefit a lot	12
The changes have made it easier to understand	13
They are very helpful	6
The policy is improved	4
Helps GCSE students	2

Other comments include:

Some elements of the Travel Behaviour Code are unrealistic e.g. not eating / drinking
Need to make people more aware of the Travel Behaviour Code

Question 2:

Is there anything in the policy you would change?

Summary of Comments	No.
Reduce the mile radius from 3 as its far to walk	12
People shouldn't have to pay for transport	4
Not fair to exclude some from house move transport provision	4
Have a policy for paying for the bus	2
Families on low income or receive benefits get it free or cheaper	2

Other comments include:

Make people more aware of the Travel Behaviour Code
Allow people to eat or drink on the bus

Question 3:**Is there anything else you'd like to tell us about School Transport?**

Summary of Comments	No.
What happens if someone needs temporary transport e.g. after injury?	6
Buses need cleaning	3
How would bullying affect transport if moved to a new school?	2
Bus drivers need to know about Travel Behaviour Code	2
Make the policy more accessible for all to know about it	2

Other comments include:

Need consequences if disobey Travel Behaviour Code

Need more security on buses

Service buses are full

6. Conclusion

At the end of each session, the facilitator made the participants aware that any questions or issues raised which required a response would receive so; and that all responses would form part of a wider response to the consultation.

If any changes were as a result of anything that would be said, the facilitator would ensure that participants are aware of these changes.

Denbighshire's Draft Learner Transport Policy

Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	183
Brief description:	The Policy relates to how Denbighshire meets the School Transport requirements outlined in the Learner Travel (Wales) Measure 2008. It is an update to the current Policy which came into effect from September 2015. The assessment was undertaken in a facilitated session with staff from Education, Passenger Transport, Finance, Sustainable Transport & Planning, the Chair of Denbighshire's School Governors Association, representatives from Ysgol Brynhyfryd and Ysgol Glan Clwyd, and a Councillor. Feedback was also sought from Denbighshire's Quality Assurance Group, which considers Impact Assessments from across the Authority.
Date Completed:	02/03/2017 20:47:30 Version: 2
Completed by:	Education Resources and Support Manager
Responsible Service:	Education & Children Services
Localities affected by the proposal:	Whole County,

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

Score for the sustainability of the approach

Could you do more to make your approach more sustainable?




(2 out of 4 stars)

Actual score: 15 / 24.

Summary of impact

Wellbeing Goals



Main conclusions

